

Digwyddiad Costau Byw ar y Cyd – adroddiad

Cost of Living Collaboration Event – report



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Ar 26 Hydref 2022 cynhaliwyd Digwyddiad Costau Byw ar y Cyd yn Theatr y Ffwrnnes, Llanelli. Nod y digwyddiad, a gynhaliwyd gan y Cyngor Sir, oedd ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid lleol sy'n gweithio yn y sector cyngor a chymorth i rannu gwybodaeth, dealltwriaeth ac arferion gorau er mwyn sicrhau mwy o gydweithio yn ein hymdrechion i gefnogi trigolion Sir Gaerfyrddin trwy'r argyfwng costau byw presennol ac i dargedu ein trigolion mwyaf agored i niwed lle bynnag y bo modd.

Roedd ychydig o dan 100 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad, gan gynnwys aelodau'r Cabinet a Chabinet yr Wrthblaid, aelodau'r Panel Ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi, cadeiryddion ac is-gadeiryddion y pwyllgorau craffu, swyddogion y Cyngor, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), cynghorau tref a chymuned a sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio yn y sector gwybodaeth a chyngor.

Rhoddodd **y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd Cyngor Sir Gaerfyrddin**, drosolwg o ddiben y digwyddiad a'r rheswm dros ei gynnal, ac anogodd yr holl bartneriaid i gymryd cymaint o ran â phosibl. Mae'r digwyddiad yn allweddol i sicrhau ein bod yn deall yr heriau yn well, gwella ein dealltwriaeth o'r cymorth sydd ar gael, a nodi cyfleoedd i gydweithio ar draws sefydliadau er mwyn gwella a chynyddu ein gallu i allu ymateb i anghenion ein trigolion.

Rhoddodd **y Cynghorydd Linda Evans, Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Drechu Tlodi**, drosolwg o'r dull gweithredu hyd yn hyn gan dynnu sylw at y rheswm pam mae angen i ni gydweithio i ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau. Yn ogystal ag amlinellu rhai o'r ymyriadau a'r cymorth sydd ar gael drwy ymgyrch 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' a chanolfannau Hwb y Cyngor, cyfeiriwyd hefyd at lansio llyfrgelloedd y Cyngor fel manau cynnes yn ystod y misoedd nesaf a'r Grant Tlodi y gall sefydliadau cymunedol a'r trydydd sector wneud cais amdano i gynnal cyfleusterau tebyg yn eu cymunedau eu hunain. Hefyd lansiodd y Cynghorydd Linda Evans yr Apêl Teganau Nadolig a gofynnodd i bartneriaid gefnogi'r apêl hon mewn unrhyw ffordd bosibl.

Rhoddodd **Rachel Clegg, Rheolwr Dealltwriaeth Data**, drosolwg o safbwynt Sir Gaerfyrddin yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data a'r wybodaeth oedd ar gael. Mae adroddiad cryno o'r canfyddiadau ar gael gyda'r cyflwyniad sy'n canolbwyntio ar:

- Cyfraddau tlodi cyffredinol
- Cyfraddau tlodi plant
- Tlodi mewn gwaith
- Pensiynwyr mewn tlodi
- Y ffactorau sy'n cyfrannu at y sefyllfa: cyflog; costau gofal plant; system fudd-daliadau gymhleth.

Yn ystod gweddill y digwyddiad rhannwyd y rhai oedd yn bresennol yn 10 grŵp trafod a gofynnwyd iddynt gynnal asesiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau yn seiliedig ar gyfres o grwpiau poblogaeth:

- Mewn gwaith ond ar incwm isel; chwilio am waith / di-waith / colli gwaith
- Beichiogrwydd / disgwyl plentyn; teuluoedd; myfyrwyr / pobl ifanc
- Person hŷn / pensiynwr; pobl mewn profedigaeth; gofalwyr; pobl anabl / sâl / wedi'u hanafu; y lluoedd arfog

- Arall

Yn dilyn yr asesiad hwn, gofynnwyd iddynt ystyried y drafodaeth gyffredinol a nodi meysydd ar gyfer cydweithio posibl ar draws sectorau yn y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Atal tlodi
- Gwella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi
- Helpu pobl i gael gwaith
- Gwell dealltwriaeth o'r heriau.

Mae amlinelliad o brif ganfyddiadau'r trafodaethau wedi'i nodi ar y tudalennau canlynol ynghyd â chrynodeb o'r prif themâu, fel yr amlinellwyd ar y diwrnod gan Barry Liles, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mewn gwaith ond ar incwm isel; chwilio am waith / di-waith / colli gwaith

Cryfderau	Gwendidau
<ul style="list-style-type: none"> • Y Cynnig Gofal Plant – 30 awr • Rhaglen ymrwymiad y Llywodraeth i ofal plant i blant 2 oed – graddol • Nifer uchel o fusnesau bach a chanolig • Cryfder cymuned (yn enwedig yn ystod Covid) • Llawer o gyfleoedd ar gyfer addysg/hyfforddiant – colegau • Galw am staff mewn sawl sector • Cynlluniau cyflogadwyedd – cymorth ar gael • Canolfannau Hwb – cyfleoedd galw heibio • Cefnogi ein staff • Mae gwaith yn darparu strwythur a phrofiad • Ap Hapi – Bwrdd Iechyd. Yn rhoi gwybodaeth i bobl ar gyfer staff mewn gwaith • Ymestyn cyfleoedd i ailddosbarthu bwyd • Gwell iechyd meddwl oherwydd bod pobl allan yn gweithio. Hunanwerth • Dyheadau uwch os yw pobl mewn gwaith • Atal y cylch ailadroddus o fyw ar fudd-daliadau • Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi • Cynllun trafndiaeth gymunedol – Dolen Teifi • Mae gwirfoddoli yn helpu i roi rhywfaint o brofiad • Consesiynau ar waith ar draws cyfleusterau'r gwasanaeth Hamdden i unigolion yn y ddemograffeg hon 	<ul style="list-style-type: none"> • Heb fod yn teilwra cymorth rhwng y rhai mewn gwaith a'r rhai nad ydynt mewn gwaith • Lefelau cyflog mewn rolau gofalu a sectorau eraill • Preifateiddio'r sector – felly angen elw • Cymhlethdod mewn perthynas â hawlio cymaint o fudd-daliadau â phosibl wrth wneud rolau rhan-amser – mae gweithio mwy na 16 awr yn golygu bod perygl o golli budd-daliadau • Angen system cymorth busnes well • Pwysig nad yw cyflogwyr yn dibynnu ar fudd-daliadau ychwanegol • A ydym yn hysbysebu swyddi yn y lleoedd iawn? Dim digon o bobl yn ymgeisio am swyddi • Nid yw pawb yn ymwybodol o'r cyfleoedd • Proses ailadroddus iawn i geiswyr gwaith – a all y sector cyhoeddus gydweithio i symleiddio'r broses? • Mae ceisiadau am swyddi Cyngor Sir Caerfyrddin yn anodd eu cwblhau • Gorfod defnyddio banciau bwyd yn hytrach na derbyn y cyflog byw • Mae gan rai pobl gyfrifoldebau uchel am gyflogau is • Pobl yn methu gwneud hawliadau digidol • Mynediad i waith oherwydd natur wledig y sir a chostau sy'n gysylltiedig â chyrraedd y gwaith • Dim ond yn ddigidol y mae'r rhan fwyaf o wybodaeth ar gael • Dealltwriaeth a gwybodaeth am baratoi bwyd – angen ailddysgu'r hanfodion • Diffyg cydlyniant a chysondeb ar draws sefydliadau • Lleoliad y canolfannau Hwb – ddim yn hygyrch i bawb • Gallu asiantaethau i ddelio â'r niferoedd sy'n dod atynt, mae rhai yn cael eu llethu • Llawer o fiwrocratiaeth i unigolion gael mynediad at gyfleoedd • Mae pobl a theuluoedd wedi'u dadleoli yn costio arian i'r Cyngor ac yn gwaethygu eu cyfleoedd bywyd. Angen ystyried hyn o ran tai ac ati.
Cyfleoedd	Bygythiadau

- Sicrhau bod cyflogwyr yn hysbysu staff o bosibilrwydd budd-daliadau i weithwyr - addysgu cyflogwyr a sicrhau eu bod yn ystyried hyn - gan eu galluogi i gadw mwy o weithwyr
- Rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus
- Briffio undebau i sicrhau ymwybyddiaeth o'r uchod
- Cefnogi busnesau bach a chanolig o ran costau hyfforddiant
- Cais am gyllid ffyniant bro i gefnogi busnesau?
- Newid strwythurol ar gyfer casglu gwybodaeth ar lefel gymunedol
- Llawer o gyfleoedd gwaith
- Multiply – grant
- Angen meithrin hyder fel man cychwyn addysg. Defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn ystod y cyfnod Covid i gyflawni
- Cynghorau tref a chymuned – cyflymu lleoliaeth
- Hyfforddwyr cymheiriaid yn y canolfannau Hwb
- Asesiad a chyfeirio cyffredinol
- Ymestyn oriau agor
- Codi i'r Cyflog Byw – gallai Cyngor Sir Caerfyrddin arwain a hyrwyddo'r hyn mae eisoes yn ei wneud
- Mapio'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddeall bylchau daearyddol a chefnogi drwy allgymorth
- Hyrwyddo cymorth a chyfleoedd drwy staff presennol
- Troshaenu data rhwng e.e. y bwrdd iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y cyngor; ac ati, i ddeall yr angen yn well o lawer
- Rhannu'r neges a pheidio aros am argyfwng
- Ymgyrch hysbysebu fwy cadarnhaol
- Cael mwy o gymorth / gwybodaeth / hyfforddiant ar gyllidebu
- Hwb Bach y Wlad
- Marchnata a chyfathrebu traddodiadol – angen dod â hyn yn ôl i gymunedau/grwpiau poblogaeth wedi'u targedu
- Cymorthfeydd cyngor ar swyddi mewn llyfrgelloedd
- Cynllun bysiau mini cymunedol i fynd â phobl i'r gwaith ac adref
- Atebion trafnidiaeth a ddarperir drwy'r cyflogwr
- Darpariaeth fwy cydgysylltiedig o gyngor a chyfeirio h.y. drwy'r canolfannau Hwb

- Ailddosbarthu cyfoeth drwy system fudd-daliadau
- Nid yw pobl mewn gwaith yn gallu defnyddio gwasanaethau 9-5
- Nid yw pobl yn gofyn am gymorth neu'n gwybod ble i fynd
- Nid oes sylw yn cael ei roi i bobl sy'n talu rhent ond sy'n methu fforddio hanfodion eraill
- Bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn cynyddu
- Diffyg cysondeb mewn graddau cyflog ar draws sefydliadau
- A yw'n rhy ddrud i bobl weithio h.y. gorfod talu costau teithio o flaen llaw
- Pobl yn ymddeol 'yn y gorllewin'
- Effaith y Ddeddf Rhentu
- Bydd tlodi'n lladd mwy o bobl na Covid = argyfwng - iechyd
- Cenhedlaeth o blant y mae Covid wedi effeithio arnynt
- Stigma sy'n gysylltiedig â phobl yn cael cymorth - yn enwedig yn eu hardaloedd lleol
- Mae angen i reolwyr a'r rhai sy'n recriwtio fod yn fwy hyblyg o ran manyleb person a datganiadau yn erbyn meini prawf sgorio a rhoi cyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau yn y swydd
- Ofn technoleg
- Gallai carfan ychwanegol gyfan o bobl eu cael eu hunain mewn tlodi yn fuan oherwydd cyfraddau morgeisi cynyddol a biliau ynni cynyddol

<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio cynghorau tref a chymuned a'u cyllidebau i helpu pobl ar lefel leol. Gwerthfawrogi bod pobl yn yr ardal leol yn deall mwy na neb pwy sydd angen cymorth a pha gymorth sydd ei angen arnynt • Seminarau gyda busnesau lleol ynghylch sut y gallant ddefnyddio a chefnogi cyflogaeth leol • Cydgysylltu gwirfoddolwyr yn well 	
---	--

Beichiogrwydd / disgwyl plentyn; teuluoedd; myfyrwyr/pobl ifanc	
Cryfderau	Gwendidau
<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno prydau ysgol am ddim • Dechrau'n Deg a chynllun Cwm Gwendraeth • Gwisgoedd fforddiadwy/Llywodraeth Cymru • Foothold – siop fwyd / siop ddillad • Profiad Covid – ar-lein - oes modd dod o hyd i fwy o gyflogaeth ar-lein / hyblygrwydd cyflogwyr • Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ond yn fach iawn – gellid ei gryfhau • Cymorth i bobl ifanc 16-25 oed, yn enwedig i gael gwaith - NEET • Pecynnau hylendid – Rhaglenni urddas mislif • Cyfleoedd ehangach i brentisiaid • Fforymau plant a phobl ifanc CCGSG, Rhwydwaith Bwyd Sir Gaerfyrddin • Mae'r sir yn gweld buddsoddiad drwy brosiectau seilwaith mawr fydd yn cynnig cyfleoedd i bobl leol • Mae prydau ysgol am ddim yn beth cadarnhaol • Mae clybiau ieuencid yn cynnig cefnogaeth, cymorth, cyngor • Mae hyfforddiant ar-lein wedi helpu gyda chostau teithio • Cyfeirio ar y wefan • Siopau gwisgoedd ail-law - mae aelodau o'r gymuned yn cynnig hyn ac mae angen i ni lansio hyn ym mhob man 	<ul style="list-style-type: none"> • Costau byw i gyflogwyr dderbyn myfyrwyr • Dyhead pobl ifanc • Dyledion myfyrwyr wrth iddynt adael y brifysgol • Tai fforddiadwy i bobl ifanc • Gallai rhieni sy'n gweithio golli budd-daliadau os ydynt yn cynyddu eu horiau • Mae bwyd o ansawdd gwael (e.e. wedi'i orbrosesu/yn cynnwys siwgr) yn aml yn rhatach i'w brynu na ffrwythau a llysiau ffres • Colli llawer o bobl ifanc sy'n mynd i'r brifysgol ac nad ydynt yn dychwelyd gyda'u sgiliau • Ar y cyflogau isaf oherwydd yr isafswm cyflog • Nid yw cyfleoedd yn cael eu hyrwyddo drwy sianeli priodol - Instagram a Tiktok ar gyfer cyfleoedd gwaith i bobl ifanc • Nid yw systemau TG yn cysylltu â'i gilydd, felly mae'n anodd cynnig y lefel gywir o gymorth. Byddai system data cwsmeriaid integredig yn helpu i ddatrys y problemau hyn • Gallai costau gofal plant cynyddol ei gwneud hi'n anodd i'r rhai sy'n disgwyl plentyn gynllunio ar gyfer dychwelyd i gyflogaeth yn dilyn y cyfnod mamolaeth • Nid yw pobl ifanc yn credu bod y cymorth ar eu cyfer nhw felly nid ydynt yn gofyn amdano • Mae clybiau ar ôl yr ysgol yn amrywio sy'n effeithio ar fywyd teuluol (amseroedd, lleoliadau, costau ac ati) • Budd-dal tai i bobl ifanc tra byddant mewn llety â chymorth ac yn gweithio. Gall rhent gynyddu (dyblu) tra byddant yn dechrau gweithio. Angen rhyddhad am 3 mis • Gormod o wybodaeth ar gael ar draws ystod o lwyfannau

Cyfleoedd	Bygythiadau
<ul style="list-style-type: none"> • Dychwelyd i roi grantiau i gyflogwyr ar gyfer hyfforddiant – cynnig cymhellion i gyflogwyr a phobl ifanc • Banciau dillad cymunedol ledled y sir • Rôl ysgolion – ymrwymiad i sicrhau bod gwybodaeth ar gael • Cydgysylltu – prosiectau bwyd a phrosiectau dillad • Foothold – bwriadu sefydlu 'Cynghrair' • Busnesau lleol i hyrwyddo swyddi'n lleol • Sicrhau'r mynediad mwyaf posibl i fudd-daliadau • Siop un stop i bobl - ddim yn cael eu hanfon o bared i bost • Rhandiroedd/Cynlluniau tyfu cynnyrch • Dysgu cyllidebu mewn ysgolion • Darparu'r gwasanaeth Dechrau'n Deg i bawb yn seiliedig ar angen yn hytrach na chôd post • Defnyddio cynghorau tref a chymuned a'u cyllidebau i helpu pobl yn lleol. Gweithio'n agosach gyda chlybiau chwaraeon cymunedol/ffermwyr ifanc • Sicrhau bod myfyrwyr a phobl ifanc yn dysgu sgiliau bywyd a sgiliau barod am waith i sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth. • Cynyddu cyflogau • Meddyg teulu/fferyllfa – cysylltiadau cymunedol da a gallant gyfeirio pobl os oes ganddynt y wybodaeth gywir • Hybiau cymunedol yn cydweithio â'r holl sefydliadau fel nad ydym yn dyblygu gwaith • A yw'r pecynnau Bounty yn yr ysbyty ar gyfer mamau ifanc yn cynnwys gwybodaeth am gynlluniau cewynnau a chymorth gan awdurdodau lleol? • Mwy o gysylltiadau galwedigaethol â busnesau lleol 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw profiad bywyd yn cael ei flaenoriaethu dros y gofyniad am radd • Diffygion maeth – plant/beichiogrwydd • Maeth i'r henoed • Ynysu - pob oedran • Diffyg cymorth teulu i famau sy'n gweithio â phlant • Diffyg cyfleoedd profiad gwaith • Cyllidebau ysgolion oherwydd yr argyfwng • Mae clybiau ieuenctid yn cau a chyfleoedd yn cael eu colli

Person hŷn / pensynwr; pobl mewn profedigaeth; gofalwyr; pobl anabl / sâl / wedi'u hanafu; y lluoedd arfog

Cryfderau	Gwendidau
<ul style="list-style-type: none"> • Dewis Cymru – potensial i gael mynediad at wybodaeth • Gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd • Trydydd sector cryf yn y sir sydd â hanes cryf o ddarparu • Prosiectau pontio'r cenedlaethau – enghreifftiau da yn Plant Dewi 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae llawer o wybodaeth ar-lein • Mae canran uchel o'r grŵp poblogaeth hwn heb hawlio'r budd-daliadau y mae hawl ganddynt i'w cael

<ul style="list-style-type: none"> • Mae ymholiadau ynghylch credyd pensiwn wedi cynyddu yn ystod y 18 mis diwethaf (dylanwad Martin Lewis a'i wybodaeth) • Costau morgais cynyddol yn effeithio llai arnynt gan fod y morgais wedi cael ei dalu o bosibl. • Rhwydwaith o glybiau pensiynwyr - angen targedu'r rhain • Gall Gwarchod Cymdogaeth helpu i gynyddu cydlyniant cymunedol • Canolfannau hwb cynnes yng nghyfleusterau Cyngor Sir Caerfyrddin • Mae clybiau tanwydd wedi gweithio'n dda • Y Pantri (y Garnant) – staff i wirio ac annog pobl i fynychu clybiau/mynd at elusennau – angen defnyddio partneriaid 	<ul style="list-style-type: none"> • Angen mwy o ymgyrchoedd wedi'u targedu yn hytrach na dull mwy cyffredinol o weithredu • Rhestrau aros i gael cymorth gan sefydliadau • Efallai nad oes sgiliau digidol gan rai pobl - efallai nad oes ganddynt deulu i'w helpu i gael mynediad drwy ddulliau digidol • Gall pobl gael eu hailgyfeirio at sefydliadau amrywiol – mae'n gallu bod yn rhwystredig iawn • Addasiadau'n cymryd gormod o amser a chostau uwch oherwydd prinderau • Allgáu digidol • Mae oedi o ran y Ganolfan Gyswllt yn peri i'r gymuned a'r cyhoedd golli diddordeb a rhoi'r gorau i gysylltu • Mae angen mwy o fuddsoddiad ar gymorth iechyd meddwl ar gyfer grŵp y Lluoedd Arfog • Nid yw unigolion am gymryd rhan mewn rhai achosion • Unigrwydd a ddim yn mynd allan oherwydd Covid • Cymorth seibiant • Ffurflenni'n gymhleth – ofn bod yn agored rhag ofn bod arian yn cael ei gymryd i ffwrdd / ddim yn deall • Mae rhestrau aros iechyd meddwl yn eithaf hir • A yw'r cyrsiau cymunedol ar gael i bawb? Y rhai nad ydynt yn gweithio a'r rhai sy'n gweithio ond eisiau gwella
<p>Cyfleoedd</p>	<p>Bygythiadau</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Dull gwell o gael yr incwm mwyaf posibl. Nifer cyfyngedig o wasanaethau ar hyn o bryd i gefnogi pobl • Gellid gwella cyfathrebu â chyn-filwyr. Rôl y canolfannau Hwb i gefnogi. Angen gwell gwybodaeth am gyfamod y lluoedd arfog • Cyfathrebu wedi'i dargedu at grwpiau allweddol e.e. pobl o oedran penodol. Defnyddio'r gofrestr etholwyr i nodi grwpiau allweddol. Anfon llythyrau a thafleuni at bobl i'w cyfeirio at gymorth - yn enwedig i bobl hŷn. • Cynghorau tref a chymuned yn gweithredu fel hybiau/canolfan gymunedol • Siopau bwyd yn hytrach na banciau bwyd sy'n cynnig addysg ar sut i goginio • Nodi arferion da ar draws y sir a chopio hynny • Gwell dealltwriaeth ynghylch pwy sy'n defnyddio banciau bwyd i dargedu cymorth 	<ul style="list-style-type: none"> • Cymorth yn eithaf dibynnol ar y trydydd sector - cyllid yn gyfyngedig • Cyllid tymor byr • Mae sgamwyr yn targedu'r grwpiau poblogaeth hyn • Mae'r boblogaeth hŷn yn cynyddu ac mae'r incwm yn fwy sefydlog • Ofn Covid yn dal yn gyffredin ymhlith grwpiau pobl hŷn • Nid yw llawer o bobl sy'n defnyddio olew yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin yn cael y cap tanwydd.

- Cyfle i gydgyssylltu/symleiddio siopau/banciau bwyd
- Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif - 1 cyfle i ddatblygu sgript i ofyn a yw pobl yn gwybod pa fudd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w derbyn a sut i gael mynediad iddynt e.e. Llesiant Delta, gweithiwr cymdeithasol, nyrsys ardal, gofalwr, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Rhagnodwr Cymdeithasol
- Gwybodaeth allweddol gyda'r Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Gyngor e.e. pa fudd-daliadau sydd ar gael a sut y gallant gael mynediad iddynt
- Canolbwyntio ar atal
- Hyfforddiant sgiliau TG i bobl hŷn
- Gwneud y defnydd gorau o gyfathrebu a'r wasg leol e.e. Llanelli Star, Journal etc
- Angen mynd yn ôl i gymunedau ar ôl Covid ar gyfer cyflwyniadau wyneb yn wyneb i grwpiau/siarad â grwpiau
- Ymgyrch wedi'i thargedu ynghylch budd-daliadau heb eu hawlio
- Cynghorwyr Sir sydd wedi'u cysylltu'n dda â'u cymunedau
- Datblygu ap sydd eisoes yn digwydd rhwng safonau masnach a gofal cartref - gellid ei gyflwyno ymhellach. Yn caniatáu i bobl gael eu cyfeirio at y sefydliad perthnasol fel bod yr unigolyn yn cael y cymorth y mae ei angen arno
- Tiwtorialau coginio
- Gwirfoddoli i bobl hŷn sydd â chyfoeth o wybodaeth, help mewn lleoliadau cymunedol ac ysgolion
- Gwneud sefydliadau fel Age Cymru yn fwy amlwg
- Hybiau cymunedol yn hwyluso boreau coffi, grwpiau cymorth, sesiynau cymorth a chyngor
- Cyrsiau cyfrifiadurol mewn canolfannau dydd ac ati i helpu pobl i ryngweithio
- Gwirio'r henoed/pobl anabl yn flynyddol
- Mwy o ddefnydd o'r safleoedd presennol - canolfannau cymunedol ac ati
- Paneli solar ar neuaddau a thai'r cyngor – tanwariant o ran cyllidebau tai
- 130 o neuaddau yn Sir Gaerfyrddin. Cydgysylltydd a fforwm yn bodoli yn CGGSG – rolau llysgennad mewn cymunedau
- Datblygu manau gwyrdd i ganiatáu i bobl yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig dyfu eu bwyd eu hunain.

Yn dilyn yr asesiad hwn, ystyriwch y drafodaeth gyffredinol a nodi meysydd ar gyfer cydweithio posibl ar draws sectorau yn y meysydd blaenoriaeth canlynol:

Atal tlodi

- Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif – sgript allweddol ar gyfer y gweithlu sy'n helpu pobl i ofyn cwestiynau cywir am y budd-daliadau sydd ar gael
- Y Cyflog Byw Gwirioneddol - ymateb y sector cyhoeddus, talu staff ond hefyd disgwyl i wasanaethau a gomisiynir wneud hyn hefyd.
- Cynlluniau rhianta cadarnhaol a chymorth i deuluoedd
- Canolfannau teulu – meithrin teuluoedd, nid dim ond plant
- Cymorth o ran tlodi tanwydd sy'n gallu cael ei hyrwyddo gan bartneriaid
- Digwyddiadau i'r gymuned i arddangos yr hyn sydd ar gael
- Fforwm strwythuredig i rannu gwybodaeth rhwng partneriaid. Cydweithio â fforwm CGGSG
- Targedu budd-daliadau yn uniongyrchol
- Trafnidiaeth – sicrhau bod ceir cymunedol ar gael. Mae amserlenni bysiau wedi newid ers COVID-19
- Mae pobl hŷn yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i docynnau bws ar-lein - Trafnidiaeth Cymru
- Mae hwbiau yn hanfodol – hwbiau llai (hwbiau gwledig yn allweddol)
- Sicrhau bod y cylch tlodi yn cael ei dorri cyn iddo ddechrau h.y. sicrhau bod pobl ifanc yn cael safon dda o addysg a'u bod yn cael cyfleoedd i ddod mor fedrus â phosibl er mwyn iddynt gael mynediad at addysg bellach ac addysg uwch, gan arwain at swyddi sy'n talu'n well yn y dyfodol ac felly yn lleihau'r risg y byddant mewn tlodi
- Cynyddu llythrennedd ariannol pan fydd pobl yn iau fel bod ganddynt sgiliau ariannol h.y. cyllidebu a gwneud penderfyniadau doeth am arian
- Mae ysgolion fel Penrhos eisoes yn gwneud gwaith da gyda'u cymuned. Mae angen i hyn gael ei ddarparu ym mhob man fel bod cydraddoldeb i bawb
- Gwell cydweithio ar draws sefydliadau o ran sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o gyfleoedd i dderbyn budd-daliadau, cyllid ac ati
- Mwy o ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd. Hyrwyddo hwbiau bwyd a banciau bwyd
- Dechrau gyda'n tenantiaid ein hunain – mae angen mwy o adnoddau i nodi'r rhai mewn angen a chefnogi pobl agored i niwed
- Defnyddio cynghorwyr a staff tai – gwirio tai a chymorth ar gyfer atgyfeiriadau ac ati
- Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif - y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Ynysu/costau uchel mewn cymunedau ffermio – gweithio gyda sefydliadau megis RABI, Sefydliad DPJ, Tir Dewi
- Darparu cymaint o wybodaeth â phosibl trwy amrywiaeth o gyfryngau – wyneb yn wyneb, llythyrau newyddion, gwefan, cyfryngau cymdeithasol ac ati

Gwella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi

- Datblygu hybiau lleol i gydgyssylltu a symleiddio cymorth
- Mae cyfathrebu'n allweddol – cyfathrebu wedi'i dargedu, nid yn dibynnu ar gyfathrebu ar-lein, defnyddio'r llythyr galw am dalu'r dreth gyngor a chyfathrebu lleol
- Mae rôl cynghorau cymuned a thref a'r trydydd sector yn allweddol neu hybiau cymunedol lleol
- Tyfu bwyd yn lleol a gwneud dewisiadau bwyd tymhorol. Ymgyrch Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff
- Prosiect ETO – dull economi gylchol o aildefnyddio
- Mae rhai pobl yn cael trafferth talu eu rhent ond nid oes ganddynt ddim byd ar ôl ar gyfer anghenion eraill
- Y sector preifat – pobl sy'n gyfoethog o ran asedau ond yn dlawd o ran arian parod – problem benodol i bobl hŷn
- Gwella cyfleoedd gwaith
- Rhestr *Trust a Trader*
- Mannau Cynnes – sicrhau cymorth i helpu i gynnal a chadw lleoedd sydd eisoes ar agor ac sy'n darparu strwythur cymorth cymunedol pwysig

- Gwella sgiliau llythrennedd ariannol a chyllidebu
- Sicrhau bod teuluoedd ac unigolion yn cael yr holl gymorth y mae ganddynt hawl i'w gael.
- Ôl-osod stoc dai bresennol er mwyn iddynt fod yn fwy effeithlon o ran ynni i leihau biliau. Ymestyn hyn i ystyried y cyfle i'r Cyngor gyflogi unigolion sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur i ddatblygu eu sgiliau ym maes adeiladu gwyrdd i fanteisio ar y cyfle am y gyflogaeth ystyrion hon
- Ystyried datblygu banciau tanwydd ar lefel gymunedol - mae hyn yn cynnwys boncyffion ac ati.
- Mae sefydliadau eisoes yn gwneud gwaith da (cyngor ar ynni, budd-daliadau ac ati) ac mae angen i ni i gyd weithio gyda'n gilydd i roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith gyda'n gilydd
- Defnyddio gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin (amserlen digwyddiadau) i bob sefydliad lleol hyrwyddo digwyddiadau. Byddai hyn yn lleihau dyblygu ond hefyd yn cynyddu gweithio mewn partneriaeth a chydweithio
- Mae 'Assist my life' yn ap sy'n cwmpasu trafndiaeth, iechyd a phethau eraill y gellir rhoi cyhoeddusrwydd iddynt
- Hyrwyddo cyfleoedd swyddi a chymorth i gwblhau ceisiadau
- Hyrwyddo 'Too Good To Go' - lle mae cwmnïau yn cynnig bagiau bwyd ar ddiwedd y dydd yn hytrach na'i fod yn mynd yn wastraff
- Rhannu gwybodaeth yn yr Awdurdod Lleol
- Cydweithfeydd prynu mewn cymunedau lle ceir nwyddau a gwasanaethau am brisiau llai oherwydd swmpbrynu
- Cymorth ariannol
- Trafndiaeth – cydgysylltu'r sefydliadau presennol
- SirGâredig – hyrwyddo'r ymgyrch yn llawnach i sicrhau bod pawb yn cefnogi cymdogion ac ati
- Ar-lein – mapio llwybr i helpu pobl drwy ddrysfa gwahanol sefydliadau / gwasanaethau
- Gwella amseroedd ymateb y ganolfan gyswllt
- Mwy o adnoddau gyda'n gilydd – Cyngor Sir Caerfyrddin/Dyfed-Powys = canolfannau cyswllt ar y cyd

Helpu pobl i gael gwaith

- Addysg i gyflogwyr ynghylch pa gymorth sydd ar gael
- Helpu pobl i ddilyn cyrsiau galwedigaethol a phrentisiaethau
- Trafndiaeth gyhoeddus am ddim - a oes angen blaenoriaethu pobl hŷn? Beth am bobl ifanc sydd angen teithio i'r gwaith?
- Cynlluniau trafndiaeth Dolen Teifi
- Gwirfoddoli fel llwybr yn ôl i'r gwaith e.e. cynllun newydd gan Plant Dewi
- Ailedrych ar broses recriwtio'r Cyngor - yr un ffurflen gais i gyfarwyddwr a chasglwr sbwriel. A yw hyn yn angenrheidiol?
- Lefelau llythrennedd a rhifedd – angen ystyried hyn o ran recriwtio. A ydym yn colli swyddogion da? Beth am bobl â sgiliau bywyd a phrofiad a allai fod yn addas ar gyfer swyddi?
- Gweithio gyda sefydliadau addysg i ddatblygu sgiliau adeiladu gwyrdd ac ôl-osod y rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur er mwyn manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a gynigir.
- Mwy o gydlyniant rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru a'r Cyngor.
- Sicrhau bod cyngor ac arweiniad ar yrfaedd yn berthnasol i'r ardal leol.
- Mae Cymunedau am Waith eisoes yn gwneud gwaith da ond mae angen i'r cynllun hwn dargedu pob ward
- Hyrwyddo cyfleoedd swyddi a chymorth i gwblhau ffurflenni cais ac ysgrifennu CV
- Hyrwyddo mynediad am ddim i ddefnyddio adnoddau TG mewn llyfrgelloedd
- Delta – a allwn ei ehangu ymhellach i gefnogi mwy o bobl mewn gofal cymdeithasol

Gwell dealltwriaeth o'r heriau

- Defnyddio data i ganolbwyntio gwaith ar y rhai sy'n gymwys i gael cyllid yn hytrach na disgwyl i bob unigolyn wneud cais
- Mae adrannau'r cyngor yn tueddu i weithio heb ymwneud ag eraill - a ydym yn rhannu gwybodaeth ac a allem ddefnyddio adnoddau'n well?

- Tlodi gwledig – tlodi yn y sector amaeth. Mae angen deall yn well gydberthyniad prydau ysgol am ddim ag ardaloedd gwledig.
- Yr her sy'n gysylltiedig â swyddi â chyflogau isel – sectorau penodol megis iechyd, gofal cymdeithasol, lletygarwch – methu recriwtio
- Heriau o ganlyniad i Brexit
- Angen deall profiadau bywyd pobol – gwefan *Poverty Truth* – deall pa ddewisiadau anodd mae pobl yn gorfod eu gwneud. A allwn ni sefydlu fforwm i ddeall yr heriau lleol yn well?
- Pryder ynghylch ffigyrau troseddau – angen monitro unrhyw dueddiadau yn y dyfodol
- Gwefan Costau Byw y Gymdeithas Llywodraeth Leol – enghreifftiau o arferion da. Cernyw mewn perthynas â thrafnidiaeth
- Mapio mynediad at gyngor gyda phrosesau atgyfeirio cyffredin i nifer o wasanaethau
- Angen deall y rhwystrau i fynediad
- Cyngori'r ymgynghorwyr – hyfforddiant/gwasanaethau
- Angen rhoi sylw i dlodi ar y cyfryngau – yn yr un modd â Covid
- Angen hybu defnyddio cynlluniau gwirfoddoli
- Clybiau cinio i aildechrau
- Rhannu gwybodaeth i nodi materion sy'n peri pryder / edrych ar allu edrych ar atebion.
- Dod â phartneriaid i ganolfannau Hwb i ddarparu gwybodaeth ychwanegol / arbenigeddau.
- Mynediad gwell at ddata ar lefel leol – gan ddefnyddio data mewnol a data gan sefydliadau partner.
- Mae digwyddiadau fel hwn heddiw yn elfen bwysig ac yn gyfle i gydweithio.
- Sut mae gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Panel Ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi yn bwydo ar draws y Cyngor? Mae angen i bawb ddeall tlodi ar bob lefel o'r sefydliad.
- A fydd y digwyddiad hwn yn cael ei gynnal eto? Mae'r digwyddiadau hyn fel arfer yn cael eu cynnal ac yna mae'r rhai oedd yn bresennol yn teimlo nad ydynt yn clywed dim byd eto.
- Mwy o ddigwyddiadau partneriaeth a chydweithio a all helpu i gyfeirio pobl at wasanaethau e.e. sioeau teithiol, ond hefyd mapio'r darpariaethau sydd ar gael, gellid gwneud hyn trwy wasanaeth gwybodaeth? Byddai hyn yn lleihau dyblygu gwasanaethau a llethu'r cwsmer
- Un pwynt cyswllt/pwynt cyswllt daearyddol i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau
- Y stigma mae rhai pobl yn ei deimlo o ran hawlio budd-daliadau neu dderbyn help
- Ni fydd yr un ateb yn addas i bawb - poblogaeth amrywiol, sut mae rhoi gwybodaeth i unigolion o hil, crefydd wahanol ac ati.
- Sut rydym yn helpu unigolion sy'n dod i mewn i'r wlad o dramor i integreiddio a deall sut mae cymunedau'n gweithio
- Chwilio am wybodaeth ar y wefan gorfforaethol, mae pobl yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i'r hyn maen nhw wir am ddod o hyd iddo
- Heriau o ran y gaeaf hwn, arian, swyddi, COVID, ffliw.
- A fydd mynediad i'r we yn foethusrwydd na fydd rhai pobl yn gallu ei fforddio yn y dyfodol a fydd yn ei gwneud yn fwy anodd cael cymorth ar-lein

Crynodeb o themâu allweddol trafodaethau fel y'u hamlinellwyd yn y digwyddiad gan Barry Liles, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

- Mae angen codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch pa gymorth sydd ar gael
- Fodd bynnag, mae cymaint o wybodaeth ar gael mae'n anodd i bobl wybod pa gymorth sydd ar gael - a allwn symleiddio pwyntiau mynediad? Datblygu dull Siop Un Stop ar gyfer cynnwys wyneb yn wyneb ac ar-lein?
- Mae angen sicrhau bod neges gyson ar draws pob sefydliad, bydd yn cael mwy o effaith – datblygu dull Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif
- Mae gan gyflogwyr rôl allweddol i'w chwarae o ran darparu cymorth i'w gweithwyr. Os yw gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael yr holl wybodaeth byddant yn gallu cyfleu negeseuon yn y cymunedau lle maent yn byw hefyd
- Mynediad pobl ifanc i waith – mae diffyg ymwybyddiaeth a chydgyssylltu ynghylch prentisiaethau, rhaglenni i raddedigion ac ymuno â'r byd gwaith. Yn ogystal, mae angen datblygu perthynas waith agosach â busnesau – harneisio diddordeb a chymorth gan y sector drwy ddarparu arweiniad ac eglurder ynghylch cyfleoedd
- Pobl ifanc a grwpiau poblogaeth penodol - dim digon o ymwybyddiaeth ynghylch gwerth, cyllidebu a rheoli arian. Mae'n ymddangos bod llythrennedd ariannol yn rhwystr sydd angen cymorth pellach i'w oresgyn
- Trafnidiaeth i gael mynediad at gymorth a chyfleoedd gwaith - mae'r diffyg trafndiaeth sydd ar gael yn broblem ond hefyd diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael
- Mae unigrwydd ac ynysu yn gyfranwyr allweddol at gostau byw – mae heriau o ran cael mynediad at rwydweithiau cymorth sydd ar gael yn cyflymu materion llesiant eraill i unigolion
- Llythrennedd digidol gyda grwpiau poblogaeth penodol. Mae'r rhan fwyaf o wybodaeth bellach ar gael ar-lein yn bennaf sy'n golygu bod llawer o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn colli negeseuon/cymorth sydd ar gael

Camau gweithredu arfaethedig

1. Datblygu ymhellach rôl canolfannau Hwb y Cyngor yng Nghaerfyrddin, Rhydaman a Llanelli. Mae cyfle i'w defnyddio i gael cyfraniad ar draws gwasanaethau/sectorau ac iddynt fod yn un pwynt cyswllt ar gyfer atgyfeirio ymlaen.
2. Datblygu cynllun ar gyfer cyflwyno dull gweithredu Hwb Bach y Wlad neu gyfres o sioeau teithiol wedi'u targedu at y 10 tref a lleoliadau eraill lle mae cyfleoedd ar gyfer allgymorth o bosib.
3. Datblygu ymgyrch wedi'i thargedu i godi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau sydd heb eu hawlio gydag arweiniad ar sut i'w hawlio. Angen ystyried y ffyrdd mwyaf priodol o dargedu grwpiau poblogaeth neu ardaloedd daearyddol penodol.
4. Mae cyfle i gefnogi banciau tanwydd ymhellach ledled y sir.
5. Mae angen ymateb amlasiantaeth i heriau cyflogaeth - o safbwynt cyflogwyr a safbwynt ceiswyr gwaith. Angen ystyried ffeiriau swyddi amlasiantaeth, cymorth ynghylch gyrfaeodd, hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth, a rhwystrau i recriwtio yn y sector cyhoeddus.
6. Mae angen datblygu cysylltiadau rhanddeiliaid â chynghorau tref a chymuned ymhellach. Mae ganddynt gysylltiadau da iawn ac mae ganddynt berthynas waith agos â'u cymuned leol – gallai helpu o ran mynediad i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.
7. Sefydlu rhwydwaith cyfathrebu gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn rhoi gwybodaeth i'w gilydd a rhoi llwyfan i gyfnewid gwybodaeth a chymryd rhan barhaus.
8. Mae angen rhai dulliau cyfathrebu traddodiadol, megis taflenni, defnyddio llythyr newyddion cymunedol. Dylai hyn fod yn rhan o gynllun cyfathrebu ehangach i'w ddatblygu.

9. Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif - mae angen nodi swyddog rheng flaen allweddol a fydd yn cysylltu â phobl agored i niwed a rhoi cymorth iddynt i alluogi sgwrs a all sbarduno'r cam nesaf o gymorth i'r unigolyn hwnnw.